

Canllaw cyflym i Ap GIG Cymru

Pynciau i'ch helpu i ateb rhai cwestiynau cyffredin gan gleifion.

Pwy all ddefnyddio'r Ap

I ddefnyddio Ap GIG Cymru, mae'n rhaid i gleifion:

- fod wedi cofrestru gyda phractis meddyg teulu yng Nghymru
- fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn
- allu profi eu hunaniaeth
- fod â'u cyfeiriad e-bost unigol eu hunain (mae eu cyfeiriad e-bost yn gweithredu fel eu dynodwr unigryw ar gyfer paru eu cyfrif NHS login ag Ap GIG Cymru, felly ni ellir ei rannu rhwng cleifion)
- fod â rhif ffôn symudol neu rif llinell dir ar gyfer prawf dilysu dau gam (gellir rhannu'r rhif ffôn hwn rhwng cleifion)

Mae dilysu dau gam yn ddull diogelwch sy'n gofyn am ddau ddull adnabod gwahanol i wirio hunaniaeth defnyddiwr cyn rhoi mynediad i adnoddau a data.

Beth all cleifion wneud gyda'r Ap

Yn dibynnu ar beth mae'r practis meddyg teulu wedi'i alluogi, gall cleifion:

- wneud, gweld neu ganslo apwyntiadau
- archebu presgripsiynau rheolaidd a gweld meddyginiaethau cyfredol a blaenorol
- gael mynediad at eu cofnod iechyd meddyg teulu
- ddarganfod gwasanaethau iechyd a gofal eraill
- reoli dewisiadau rhoi gwaed ac organau
- ddod o hyd i ddolenni i GIG 111 Cymru, Rhoi Organau a Gwasanaeth Gwaed Cymru
- ddefnyddio biometreg (ôl bys, wyneb neu iris)
- ddod o hyd i ddolenni i dudalennau cymorth a chefnogaeth
- anfon adborth drwy'r Ap
- gofrestru i ymuno â phaneli ymchwil defnyddwyr
- gyrchu hysbysiadau gwrthio ar gyfer presgripsiynau

- gyrchu Llinell Amser Fy Iechyd
- gyrchu Fy Nghofnod Iechyd

Lawrlwytho'r Ap

Gellir lawrlwytho'r Ap o'r App Store a Google Play trwy chwilio am "Ap GIG Cymru".

Mae'r fersiynau a argymhellir ar gyfer Apple iOS 14 ac yn ddiweddarach ac Android 10 ac yn ddiweddarach.

Mae'r Ap hefyd ar gael drwy ddefnyddio porwr gwe yn <https://app.nhs.wales> a <https://ap.gig.cymru>

Gwario hunaniaeth y claf

Gall cleifion sydd â'r ID llun gofynnol, fel pasbort neu drwydded yrru, ddefnyddio [NHS login](#) i wirio eu hunaniaeth.

Bydd angen i gleifion sydd â'r ID llun gofynnol i ddilysu eu hunaniaeth, megis pasbort neu drwydded yrru, ddefnyddio [Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru](#) (WIVS) trwy NHS login.

Bydd angen i gleifion gael eu practis i wirio eu hunaniaeth. Unwaith y byddan nhw wedi'u dilysu, byddan nhw'n derbyn llythyr dilysu hunaniaeth ac yna gallan nhw gwblhau'r camau ar NHS login.

Cewch hyd yma i ragor o wybodaeth am [gael mynediad i Ap GIG Cymru gyda NHS login a gwario eich hunaniaeth](#).

Os yw cleifion yn cael problemau gyda'u cyfrif NHS login, bydd angen iddyn nhw ymweld â [Chanolfan Gymorth NHS login](#). Mae'r Ganolfan Gymorth yn cynnig cyngor a chymorth ar gyfer problemau gyda NHS login. Mae hefyd yn rhoi manylion am sut i gysylltu â [thîm cymorth NHS login](#).

Defnyddio gwasanaethau o fewn yr Ap

Apwyntiadau

Bydd yr Ap yn dangos apwyntiadau sydd ar gael i'w bwcio ar-lein o fewn yr 16 wythnos nesaf. Gellir gosod y system practis meddyg teulu i gyfyngu ar y nifer o apwyntiadau y gall un claf eu gwneud.

Presgripsiynau

Dim ond meddyginiaethau a fydd yn cael eu harchebu yn ystod y 28 diwrnod nesaf y bydd yr Ap yn eu dangos. Nid yw'r Ap yn cynnig nodwedd archebu presgripsiwn sydd ddim yn bresgripsiwn rheolaidd ar hyn o bryd. Gall cleifion weld rhestr o'u meddyginiaethau aciwt, rheolaidd cyfredol, a rheolaidd sydd wedi dod i ben, yn yr adran Fy Iechyd, o dan Presgripsiynau.

Cofnod iechyd

Mae'r rhan fwyaf o bractisiau wedi galluogi'r cofnod gofal cryno (SCR) ar gyfer pob claf fel gosodiad safonol.

Gall cleifion ofyn am fynediad i'w cofnodion manwl wedi'u codio (DCR) trwy eu practis meddyg teulu. Mae angen i hyn gael ei gymeradwyo neu ei wrthod gan y practis. Cyfrifoldeb y practis yw gwirio'r wybodaeth cyn ei rhyddhau i'r claf.

Am ragor o wybodaeth am gofnodion manwl wedi'u codio, gweler [Adnoddau i Bractisiau ar y Cofnodion Meddygol Manwl wedi'u Codio](#) (sharepoint.com)

Am ystyriaethau pellach ynghylch cofnodion manwl wedi'u codio a diogelu cleifion, gweler [Mynediad at gofnodion cleifion a diogelu - Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#).

Os nad yw'r practis yn dymuno cynnig y gwasanaeth hwn, fe'ch cynghorir i nodi hyn ar wefan y practis i helpu i reoli disgwyliadau cleifion.

Rheoli gwasanaethau iechyd ar ran eraill

Gelwir hyn yn 'fynediad awdurdodedig' a bydd yn galluogi cleifion i ddefnyddio'r Ap i reoli gwasanaethau iechyd ar ran claf arall sydd wedi'i gofrestru gyda'r un practis.

Bydd claf sydd wedi cael mynediad gan ei bractis yn gallu:

- gwneud apwyntiad meddyg teulu
- archebu presgripsiwn rheolaidd
- gweld eu cofnod iechyd meddyg teulu

ar ran rhywun arall.

Mae'r gwasanaeth hwn yn dal i gael ei ddatblygu. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan.